Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Hyddgen

**Machynlleth**
**Powys**
**SY20 8DR**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Hyddgen

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Hyddgen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Ysgolion pob oed |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 424 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 359 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 43 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Ysgolion pob oed yw 20.2%) | 13.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Ysgolion pob oed yw 8.6%) | 18.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 40.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 25/11/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol

## Crynodeb

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Bro Hyddgen agweddau cadarnhaol iawn at fywyd ysgol ac maent yn ymfalchïo mewn bod yn rhan ohoni. Mae disgyblion o bob oed yn hynod gwrtais ac yn barchus tuag at oedolion ac ymwelwyr. Maent yn cyd-chwarae neu'n cymdeithasu'n hwyliog yn ystod amseroedd egwyl a chinio gan fwynhau cwmni ei gilydd. Mae hyn yn nodwedd arbennig.

Mae staff yn blaenoriaethu lles disgyblion ac yn arddel ethos cynhaliol a gofalgar. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n hapus yn yr ysgol ac yn barod i droi at staff am gymorth, pe byddai angen. Ceir trefniadau cadarn i helpu plant dosbarth Derbyn i setlo'n dda ar gychwyn eu bywyd ysgol a nifer o weithgareddau buddiol i ddisgyblion Blwyddyn 6 a'u cyfoedion o ysgolion eraill lleol i'w paratoi at fywyd yn yr adran uwchradd. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnwys ystod dda o brofiadau dysgu sy'n rhoi cymorth i ddisgyblion wneud penderfyniadau iach o ran eu ffordd o fyw, gan gynnwys sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Rhoddir sylw parhaus i nodi pwysigrwydd dod i'r ysgol yn rheolaidd ymysg disgyblion a'u teuluoedd ond mae lefelau presenoldeb yn parhau'n isel o'u cymharu â'r cyfnod cyn y pandemig.

Ar draws yr ystod oedran, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac mae ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd cryf dros amser. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddiffygion yng nghynllunio strategol arweinwyr a sut mae athrawon yn cynllunio eu gwersi a thasgau, nid yw disgyblion yn cyflawni cystal ag y gallent. Mae'r gefnogaeth a roddir i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn fuddiol, gan gynnwys dosbarthiadau yn uned 'Y Gelli', ond nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwy abl yn ddigon effeithiol. Nid yw'r trefniadau rheoli presennol yn caniatáu i arweinwyr gael trosolwg cynhwysfawr o'r continwwm ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol nac o'r ddarpariaeth ysgol-gyfan ar gyfer datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi rhoi ffocws priodol ar gryfhau trefniadau i staff ddatblygu'n broffesiynol ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ychydig o feysydd pwysig, fel ansawdd yr adborth ar waith disgyblion. Mae'r cynllun gwella ysgol ynghyd â chynlluniau gwella meysydd penodol yn cynnwys nifer o feysydd allweddol sydd angen eu datblygu. Serch hyn, nid yw'r prosesau rheoli llinell yn ddigon cadarn i alluogi arweinwyr i ddwyn staff yn atebol am eu gwaith.

Mae cyflwr yr adeiladau, diogelwch y safle a threfniadau goruchwylio yn yr adran uwchradd yn peri pryder. Trosglwyddwyd pryderon penodol y tîm arolygu i awdurdod addysg lleol Powys ac i'r llywodraethwyr.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud chwech argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Mynd i’r afael â’r materion diogelu a adnabuwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Gwella presenoldeb

A3 Gwella ansawdd yr addysgu

A4 Cryfhau’r arweinyddiaeth strategol a’r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynyddol disgyblion yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol

A5 Sefydlu trefniadau rheolaeth llinell cadarn a chyson er mwyn sicrhau bod arweinwyr yn dwyn staff yn atebol am eu gwaith ac yn rhoi ystyriaeth lawn i ddatblygiad disgyblion mewn ysgol bob oed

A6 Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant gan roi sylw clir i effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion, ynghyd â’r cynnydd a wnânt yn eu dysgu a’u medrau

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o’r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae’r perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng disgyblion ac athrawon Ysgol Bro Hyddgen yn gryfder nodedig. Mae’r rhan fwyaf o athrawon wedi sefydlu trefn a disgwyliadau clir o ran ymddygiad ac agweddau at ddysgu ac felly mae eu disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac mae’r parch a ddangosant at staff yn glodwiw.

Mae llawer o athrawon yn cyfarwyddo ac esbonio’n glir gan ddefnyddio terminoleg berthnasol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n ofalus arnynt, yn dyfalbarhau’n ddiwyd ac yn canolbwyntio’n dda, hyd yn oed pan mae tasgau neu esboniadau yn mynd ymlaen yn rhy hir. Mewn lleiafrif o sesiynau ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn oddefol oherwydd bod cyflwyniadau athrawon yn rhy hir neu maent yn gor-gyfarwyddo’r dysgu. Er bod mwyafrif y disgyblion yn adalw gwaith blaenorol ac yn cofio geirfa allweddol yn dda, mae lleiafrif ohonynt yn or-ddibynnol ar gymorth gan athrawon neu ar wybodaeth mewn llyfrynnau gwaith neu fatiau iaith. O

ganlyniad, nid ydynt yn datblygu'r annibyniaeth angenrheidiol i'w galluogi i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Ym mwyafrif y sesiynau, mae nodweddion cadarnhaol yng nghynllunio athrawon yn golygu bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys defnydd o adnoddau dysgu buddiol, cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio mewn parau a grwpiau bach a gweithgareddau pwrpasol sy'n rhan o ''Alldeithiau'' neu brofiadau dysgu diddorol. Mewn ychydig o achosion, lle mae athrawon yn frwdfrydig iawn am eu maes dysgu, yn cyflwyno'n egnïol ac yn trefnu gweithgareddau ysgogol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu gwybodaeth a'u medrau pynciol. Yn y gwersi hyn, rhoddir cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion  wneud penderfyniadau eu hunain ac i ddatblygu eu medrau meddwl, eu dychymyg a'u medrau datrys problemau. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o'r hyn y gall eu disgyblion ei gyflawni. Serch disgwyliadau uchel y rhan fwyaf o athrawon o ran ymddygiad a chyfranogiad disgyblion mewn gwersi, nid oes ganddynt yr un uchelgais ynglŷn â'u cyflawniad a'u potensial, yn enwedig yn yr adran uwchradd.

Mae llawer o athrawon a chymorthyddion yn rhoi cymorth ac arweiniad addas i ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu neu allu isel ond, ar draws yr ysgol, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwy abl yn ddigon cyson. Mewn lleiafrif o achosion ar draws yr ysgol, mae'r diffygion yng nghynllunio a threfn gwersi athrawon yn golygu nad yw'r disgyblion yn gwneud cystal cynnydd ag y gallent.

Mae'r diffygion hyn yn cynnwys:

- Gwersi sy'n araf yn tanio neu wersi lle mae'r gyfradd addysgu a dysgu yn rhy hamddenol
- Athrawon yn gor-gyfarwyddo ac yn gwneud gormod dros y disgyblion
- Diffyg amrywiaeth yn y tasgau dros amser neu ddiffyg her gynyddol ynddynt
- Diffyg cynllunio bwriadus ar gyfer datblygiad cynyddol disgyblion yn eu gwybodaeth ac yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol
- Diffyg cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol, datblygu eu medrau meddwl ac i ddatrys problemau cymhleth
- Cyfleoedd annigonol i ddisgyblion gyfranogi ar lafar, arwain y dysgu a modelu eu gwaith
- Disgwyliadau rhy isel o beth a faint y gall disgyblion ei gyflawni

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn holi cwestiynau sylfaenol a byr i wirio dealltwriaeth disgyblion a dwyn eu dysgu blaenorol i gof. Ychydig o athrawon sy'n gofyn cwestiynau estynedig neu heriol i brocio dychymyg neu chwilfrydedd disgyblion neu i'w harwain i feddwl yn ddyfnach. Mae hyn yn llesteirio cynnydd disgyblion yn eu medrau meddwl, llafaredd a'u gallu i ddatrys problemau. Mewn ychydig o wersi, rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddarllen ar goedd, dangos eu gwaith, modelu atebion neu gynnig enghreifftiau o atebion da. Yn gyffredinol, gwelir anghysondeb yn ansawdd ac effeithiolrwydd adborth ysgrifenedig ar waith disgyblion o fewn ac ar draws meysydd a'r ysgol. Yn yr enghreifftiau gorau, gwelir:

- Defnydd pwrpasol o daflenni CIW ('Cyfle i Wella) lle mae disgyblion yn ymateb yn briodol i dargedau'r athro

- Defnydd buddiol o'r cod marcio llythrennedd
- Adborth sy'n rhoi arweiniad penodol i'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith
- Cwestiynau neu gyfarwyddiadau dilynol heriol
- Clustnodi amser priodol mewn gwersi er mwyn i ddisgyblion ymateb a gweithio ar yr hyn sydd angen ei wella

Yn rhy aml, gwelir targedau'n cael eu gosod i ddisgyblion er mwyn gwella'r gwaith ond diffyg gwaith dilynol perthnasol neu ymateb anghyson gan y disgyblion i'r adborth. Mewn ychydig o achosion, mae sylwadau athrawon ar waith disgyblion yn rhy arwynebol neu'n or-ganmoliaethus. Mae anghysondeb o fewn ac ar draws meysydd dysgu yn y ffordd y mae athrawon yn tynnu sylw at gamgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg.

**Darpariaeth a safonau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol**

Nid yw'r arweinyddiaeth strategol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion yn ddigon effeithiol. Nid yw wedi ei gydlynu'n ddigon agos er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cynyddol yn eu medrau wrth iddynt symud i fyny'r ysgol, yn enwedig yn eu medrau rhifedd a digidol.

Yn gyffredinol, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau llythrennedd yn briodol a gwelir rhai enghreifftiau da o dasgau gwerthfawr i ddatblygu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu ar draws yr ysgol. Mae medrau llafar llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n addas. Maent yn hyderus i rannu syniadau mewn sesiynau trafod torfol gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa briodol. Mae mwyafrif o'r disgyblion hŷn yn cyfleu eu hunain yn eglur a chywir ac yn defnyddio ystod briodol o eirfa, ond gan amlaf mae eu hatebion yn gryno iawn.

Yn y gwersi Cymraeg, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio a datblygu geirfa cynyddol heriol ac mae ychydig yn cyfleu eu syniadau'n  huawdl gyda geirfa soffistigedig. Mewn rhai pynciau, mae ychydig o ddisgyblion yn yr adran uwchradd yn trafod meysydd cymhleth mewn modd aeddfed ac yn defnyddio geirfa gyfoethog. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn dawedog ac yn ddihyder i gyfrannu ar lafar yn y ddwy iaith. Maent yn cynnig ymatebion byr heb eu datblygu'n llawn. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith agwedd bositif tuag at y Gymraeg ac maent yn datblygu eu hyfedredd yn yr iaith yn gadarn dros amser.

Mae medrau darllen cynnar disgyblion yn datblygu'n addas, ac ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau darllen sylfaenol yn gadarn. Maent yn lleoli ffeithiau a gwybodaeth yn gywir ac yn datblygu dealltwriaeth dda o'r hyn a ddarllenant o ran ystyr a bwriad. Mewn ychydig iawn o bynciau yn yr adran uwchradd, mae disgyblion yn datblygu uwch fedrau darllen yn addas gan ddehongli ystyr, dod i gasgliadau craff neu ddeall ystyr neu fwriadau'r awdur. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ac ymarfer uwch fedrau darllen.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythrennau mewn reis ac yn defnyddio clai i ffurfio llythrennau. Yn nes ymlaen, mae llawer yn fedrus wrth greu brawddegau doniol wrth ymchwilio i odlau, ac erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn datblygu medrau ysgrifennu creadigol cadarn. Defnyddiant ystod dda o eirfa,

ymadroddion ac idiomau i gyfleu teimladau fel hiwmor neu ofn. Ceir cyfleoedd priodol i ysgrifennu'n estynedig mewn lleiafrif o bynciau ac eithrio Cymraeg a Saesneg yn yr adran uwchradd.

Mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n gymwys mewn ystod briodol o ffurfiau ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd yn y ddwy iaith. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n rhugl yn y Saesneg ac yn llwyddo i greu darnau estynedig yn annibynnol, er enghraifft wrth ddadansoddi cerddi rhyfel. Mae gan ychydig afael dda iawn ar eirfa a chystrawen soffistigedig ac maent yn defnyddio idiomau ac iaith rethregol yn wybodus. Yn y Gymraeg, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn creu darnau ysgrifenedig safonol yn lled-annibynol.

Mae medrau mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol o oed cynnar. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cyfri'n hyderus hyd at 10 wrth ddefnyddio blociau i fesur hyd esgyrn amrywiol a defnyddia disgyblion yr adran gynradd eu gwybodaeth am ffeithiau rhif yn hyderus mewn amryw gyd-destun perthnasol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn hyderus wrth ddefnyddio gwahanol ddulliau cyfrifo i gyflwyno gwybodaeth mewn siartiau a graffiau i ddangos gwerthiant, elw a cholled.

Mae medrau mathemateg mwyafrif y disgyblion yn yr adran uwchradd yn datblygu'n dda. Maent yn llwyddiannus wrth gyfrifo arwynebedd a pherimedr siapiau afreolaidd ac yn arddangos medrau algebra priodol gan ddatrys a symleiddio hafaliadau. Drwyddi draw, mewn pynciau perthnasol eraill, mae disgyblion yn defnyddio a chymhwyso medrau rhifedd sylfaenol yn addas, er enghraifft wrth lunio graffiau bar, defnyddio hafaliadau syml a thrin data. Fodd bynnag, oherwydd diffygion yn y cynllunio ar gyfer datblygiad cynyddol rhifedd ar draws y cwricwlwm, nid yw disgyblion yr adran uwchradd, yn enwedig y rhai hynaf, yn datblygu a chymhwyso eu huwch fedrau rhif yn ddigonol.

Mae medrau digidol sylfaenol disgyblion yn datblygu'n briodol, ar y cyfan. Mae'r disgyblion ieuengaf yn hyderus wrth reoli teclyn rhaglenadwy ac wrth ddefnyddio ystod o raglenni cyfrifiadurol er mwyn cyflwyno'u gwaith. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn hyderus wrth ddefnyddio taenlenni i fewnbynnu data a defnyddio fformiwlâu. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau digidol sylfaenol yn hyderus wrth gyflwyno gwybodaeth mewn rhaglenni syml. Oherwydd diffyg cyfleoedd, nid yw'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau digidol yn gynyddol ac mae cyfleoedd i ddefnyddio ystod eang o gyfryngau digidol yn brin.

Yn y gwersi addysg gorfforol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cyd-ymarfer a gweithio mewn grwpiau i ddatblygu medrau corfforol buddiol. Maent yn datblygu technegau perthnasol mewn rygbi cyffwrdd a phêl-rwyd ac ystwythder yn eu gwersi gymnasteg a sesiynau yoga. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud datblygiad cadarn yn eu medrau creadigol mewn gwersi celf. Maent yn arbrofi gydag amrywiol dechnegau a deunyddiau ac yn creu darnau o gelf safonol.

## Cwricwlwm

Mae'r cwricwlwm ar draws yr ysgol yn cynnwys nifer o gryfderau ond nid yw'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 yn diwallu anghenion a diddordebau'r holl ddisgyblion. Cynigir rhai pynciau sy'n adlewyrchu cyd-destun yr ardal a dyheadau

rhai disgyblion yn briodol, fel y cwrs amaeth.. Mae'r ysgol wedi ehangu ei chynnig cwricwlaidd i ddisgyblion y chweched dosbarth drwy bartneriaethau buddiol gydag ysgolion a darparwyr eraill. Er enghraifft, mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i astudio seicoleg a gwleidyddiaeth trwy'r ddarpariaeth e-sgol sirol.

Ar gyfer disgyblion iau a'r rhai yng nghyfnod allweddol 3, mae arweinwyr wedi datblygu cwricwlwm diddorol sy'n ymgorffori hanes, diwylliant a threftadaeth yr ardal leol yn llwyddiannus. Mae staff wedi cydweithio'n effeithiol â disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach i sicrhau bod yr ysgol yn darparu profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb llawer o'r disgyblion ac yn magu'r teimlad o berthyn i'w cynefin. Er enghraifft, trwy'r alldaith 'Dylife', mae cyfle i ddisgyblion ddysgu am gefndir hanesyddol, economaidd a chymdeithasol pentref bach lleol oedd unwaith yn enwog am fwyngloddio. Yn y gwersi 'Dysgu Disglair', mae disgyblion Blwyddyn 7 yn cael cyfle i fod yn weithredol yn eu dysgu trwy ddatblygu cywaith sydd o ddiddordeb iddynt, er enghraifft creu gwefan ar sgiliau pêl-droed, dysgu iaith newydd neu greu gemwaith lledr. Mae arweinwyr wedi cydweithio i greu mapiau cynnydd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Fodd bynnag, nid ydynt wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i ddilyniant ym mhrofiadau dysgu na datblygiad cynyddol disgyblion yn eu medrau a'u gwybodaeth o'r cyfnod cynradd i'r uwchradd.

Cefnogir datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn effeithiol trwy gyfrwng y rhaglen 'Munud i Feddwl' foreol, gwasanaethau dosbarth a thorfol, a'r gwersi addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Mae disgyblion yn elwa o raglen ABCh bwrpasol a chynhwysfawr i'w helpu i ddatblygu'n bersonol a chymdeithasol. Mae arweinwyr wedi ystyried cynnwys y gwersi hyn yn ofalus yn seiliedig ar ddata holiaduron disgyblion, materion allweddol a nodwyd trwy waith y staff a blaenoriaethau cenedlaethol.

Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu sut i fod yn ffrind da, pwysigrwydd rheoli arian a'r effaith andwyol y gall camddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ei chael ar iechyd meddwl. Mae'r ysgol yn cynnig cymorth ac arweiniad da i helpu disgyblion i wneud dewisiadau gwybodus am eu camau nesaf.

Darperir ychydig o gyfleoedd ar draws rhai meysydd dysgu a phrofiad i ddathlu amrywiaeth, herio rhagfarn a datblygu gwerthfawrogiad disgyblion o wahanol ddiwylliannau. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer dysgu am hanes a phrofiadau cymunedau pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a datblygu ystyriaeth o bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol + ar draws meysydd yn ddigon bwriadus.

Mae cyfleoedd eang a gwerthchweil i ddisgyblion ddatblygu eu medrau pynciol, chwaraeon a pherfformio tu hwnt i'r dosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys profiadau gwerthfawr trwy glwb yr Urdd a chlwb traws gwlad. Rhoddir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gynrychioli'r ysgol, megis mewn timau chwaraeon, eisteddfodau ac yn y gala nofio. Mae'r plant hŷn yn cymryd rhan mewn sioeau cerdd ac yn ymweld ag arddangosfeydd yn y Ganolfan Gelfyddydau yn y dref. Rhoddir cyfle i ddisgyblion o bob oed werthfawrogi grwpiau Cymraeg yn perfformio yn 'Gig Maes B Bro Hyddgen', sef gŵyl gerddorol flynyddol sydd wedi ei threfnu gan yr ysgol er mwyn hybu a dathlu Cymreictod.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Bro Hyddgen yn gymuned ofalgar a theuluol. Mae gan bron bob disgybl ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf yn teimlo’n ddiogel ac yn rhydd rhag unrhyw fwlio o fewn cymuned ddysgu gefnogol ac maent yn gwrtais ac yn dangos parch a gofal at eu cyfoedion ac ymwelwyr. Mae staff yn hyrwyddo safonau ymddygiad cadarnhaol cyson sy’n meithrin hunanddisgyblaeth disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys rheolau, gwobrau a sancsiynau clir. Mae’r disgyblion ieuengaf yn cael eu gwobrwyo’n wythnosol yn y gwasanaethau, a’r disgyblion hynaf yn gwerthfawrogi ennill tocynnau clod. O ganlyniad, mae ymddygiad bron bob un disgybl yn dda iawn yn y gwersi ac yn ystod amseroedd egwyl a chinio.

Mae gan staff adnabyddiaeth dda iawn o’r disgyblion a cheir trefniadau cryf i gefnogi eu hanghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol. Trefnir amrywiaeth o ymyraethau addas i gefnogi lles disgyblion ac mae staff perthnasol yn cydweithio'n dda ag asiantaethau i roi darpariaeth ychwanegol fel therapi celf a chwarae. Mae staff yn meithrin perthynas agos a chynhaliol â’r disgyblion ac mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn gyffyrddus i drafod unrhyw bryderon â nhw.

At ei gilydd, drwy amrywiol bwyllgorau llais y disgybl, mae medrau arwain y disgyblion yn datblygu’n gadarn. Mae’r disgyblion ieuengaf yn cael cyfleoedd bwriadus i arwain ar ystod eang o bwyllgorau. Er enghraifft, mae’r llysgenhadon chwaraeon yn arwain gweithgareddau yn ystod amseroedd chwarae i hybu ffitrwydd mewn amrediad o chwaraeon hwyliog. Yn dilyn adborth gan ddisgyblion, mae’r cyngor ysgol wedi dylanwadu ar y fwydlen yn yr adran uwchradd i sicrhau bod dewis addas o fwydydd iach ar gael.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder am eu hysgol ac yn mwynhau cymdeithasu mewn gweithgareddau allgyrsiol amrywiol fel y clwb garddio a’r clwb dartiau i’r disgyblion hynaf. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn llysgenhadon gwerthfawr i’r ysgol. Maent yn datblygu’n ddinasyddion parchus a chyfrifol sy’n cyfrannu’n frwd at fywyd yr ysgol trwy gynorthwyo disgyblion iau â’u darllen neu gynorthwyo athrawon mewn gwersi addysg gorfforol.

Mae gan yr ysgol brosesau dilys i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Ceir systemau addas i adnabod anghenion disgyblion yn fuan a threfnir ystod o ymyraethau a chefnogaeth bwrpasol i gefnogi’r disgyblion hyn, gan gynnwys cydweithio effeithiol ag amrywiaeth o asiantaethau allanol er mwyn cael arweiniad a chyngor arbenigol. Mae’r ddarpariaeth yn nosbarth ‘Y Gelli’ ar gyfer disgyblion ag anawsterau mwy dwys yr adran gynradd yn gryf. O ganlyniad i ddarpariaeth ac arweinyddiaeth effeithiol, mae llawer o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Ceir trefniadau effeithiol sy’n sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo’n llwyddiannus o un cyfnod i’r llall. Mae holiaduron cychwynnol i rieni disgyblion y dosbarth Derbyn yn rhoi darlun clir o’u cryfderau a’u hanghenion ar fynediad ac yn caniatáu i staff perthnasol gynllunio’n bwrpasol a’u galluogi i ymgartrefu. Yn ogystal, ceir cydweithio effeithiol rhwng staff ‘Y Gelli’ a’r dosbarthiadau prif lif. Mae staff perthnasol yn rhannu gwybodaeth gynhwysfawr am ddisgyblion unigol a chynhelir sawl ymweliad buddiol i ddisgyblion Blwyddyn 6 y clwstwr i’r adran uwchradd.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo a monitro presenoldeb disgyblion yn gyson. Maent yn cydweithio'n bwrpasol â theuluoedd ac asiantaethau allanol i fynd i'r afael ag absenoldebau. O ganlyniad, mae lefel presenoldeb llawer o ddisgyblion yn gwella ar draws yr ysgol. Ym mlwyddyn academaidd 2018-19, roedd presenoldeb yr ysgol yn llawer is nag mewn ysgolion tebyg eraill. Gwelwyd gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion yn 2022-23 ac ychydig o welliant eto yn 2023-24. Er hyn, mae cyfraddau presenoldeb ar draws yr ysgol yn parhau i fod yn gymharol isel.

Mae'r ysgol yn cynnal diwylliant addas o ddiogelu ac yn hyrwyddo ethos gofalgar. Fodd bynnag, mae materion iechyd a diogelwch sylweddol yn ymwneud â safle'r adran uwchradd.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd hawddgar sydd wedi cynnwys y staff a'r disgyblion yn bwrpasol i greu gweledigaeth addas i'r ysgol. Mae'r weledigaeth hon wedi ei seilio ar egwyddorion pwysig, gan gynnwys datblygu dinasyddion dwyieithog, hyderus sy'n barod i gyfrannu'n llawn i'w cymdeithas. Caiff y pennaeth ei gefnogi'n bwrpasol gan aelodau o'r uwch dîm arwain. Fodd bynnag, nid yw eu cyfrifoldebau wedi eu dosrannu'n gytbwys. Nid yw bob amser yn eglur pwy sydd â chyfrifoldeb strategol am agweddau ysgol gyfan ac nid yw cynllunio strategol traws-ysgol ar gyfer y cwricwlwm a'r medrau wedi ei ddatblygu'n llawn. Dros amser, mae hyn wedi rhwystro datblygiad cynyddol disgyblion yn eu medrau a'u dysgu.

Mae'r uwch arweinwyr yn cefnogi a herio arweinwyr canol yn addas, ar y cyfan. Maent yn cynnal cyfarfodydd tymhorol sy'n darparu cyfleoedd buddiol iddynt drafod materion pwysig, gan gynnwys deilliannau disgyblion, prosesau hunanwerthuso a'r cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn yn ddigon ffurfiol na chyson i sicrhau bod arweinwyr canol yn cael eu dwyn yn atebol, er enghraifft wrth werthuso perfformiad ac ansawdd y gwaith o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Nid yw arweinwyr yn rhoi ystyriaeth ddigon cydlynus i safonau disgyblion, na'r datblygiad cynyddol yn eu gwybodaeth bynciol a'u medrau wrth fesur effaith eu gwaith.

Mae gan yr ysgol galendr o weithgareddau addas er mwyn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn dadansoddi data, yn arsylwi sesiynau dysgu ac yn defnyddio holiaduron yn achlysurol er mwyn caffael barn disgyblion. Yn aml, maent yn cynnwys y llywodraethwyr a'r staff yn bwrpasol yn y gweithgareddau hyn. Yn gyffredinol, mae hyn yn cyfrannu at allu arweinwyr i adnabod rhai cryfderau ac ychydig o agweddau penodol sydd angen eu gwella. Fodd bynnag, mae eu harfarniadau yn rhy hael ac nid yw arweinwyr ar bob lefel yn rhoi digon o ystyriaeth i effaith yr addysgu ar safon gwaith na deilliannau'r disgyblion.

Ar y cyfan, mae arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau gweithgareddau monitro yn briodol i bennu blaenoriaethau gwella ac mae hyn wedi arwain at ychydig o welliannau, fel safon yr adborth a roddir i ddisgyblion. Maent wedi cynllunio i wella rhai agweddau pwysig ym medrau'r disgyblion, yn benodol datblygiad medrau rhifedd a llafar disgyblion hynaf yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r deilliannau disgwyliedig wedi eu diffinio'n ddigon eglur ac ni roddir digon o sylw i wella'r cynllunio a'r addysgu. Ar y cyfan, mae gan arweinwyr canol gynlluniau gwella addas sy'n rhoi ffocws ar wella rhai agweddau perthnasol o fewn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae amcanion datblygiad proffesiynol pob aelod o staff yn cysylltu'n bwrpasol â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Rhoddir cyfleoedd buddiol i'r staff ymgymryd â gwaith ymchwil pwrpasol er mwyn dylanwadu ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Er enghraifft, mae'r gwaith ymchwil i wella medrau llafar disgyblion wedi cael effaith briodol ar wella eu cyfranogiad o fewn ychydig o wersi.

Mae'r llywodraethwyr yn gorff gweithgar a chydwybodol sy'n cefnogi'r ysgol ac yn darparu her briodol, pan fo angen. Er enghraifft, maent wedi bod yn flaengar wrth gefnogi'r pennaeth i ymdopi â her sylweddol yr adeilad presennol ac wrth gynllunio ymlaen ar gyfer adeilad newydd. Fodd bynnag, mae cyflwr yr adeilad a diogelwch y safle yn peri pryder.

Mae'r pennaeth, swyddog cyllid yr ysgol a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant a chyllideb yr ysgol yn ofalus o dan amgylchiadau ariannol heriol. Mae arweinwyr yn cynllunio gwariant y grant datblygu disgyblion yn synhwyrol. Er enghraifft, rhoddir hyfforddiant pwrpasol i staff er mwyn iddynt allu cefnogi disgyblion a'u teuluoedd, a chynigir sesiynau mentora i ddisgyblion er mwyn gwella eu lles a chodi dyheadau. Mae arweinwyr yn monitro ac arfarnu effaith y defnydd o grantiau yn bwrpasol. Mae gan arweinwyr drefniadau pendant i leihau effaith tlodi ar ddisgyblion a'u teuluoedd. Maent yn gweithio'n agos ag asiantaethau allanol perthnasol ac maent yn sicrhau bod cyfleoedd cyfartal i ddisgyblion gael profiadau allgyrsiol tebyg.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw cymwys i rai blaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft wrth ymateb yn llawn i'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ac wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r ymdeimlad o Gymreictod ymysg disgyblion. Mae arweinwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i rai o argymhellion yr arolygiad diwethaf, gan gynnwys datblygu egwyddorion y dysgu sylfaen yn llwyddiannus. Maent hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar feithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â'u disgyblion, a sicrhau agweddau at ddysgu ac ymddygiad da. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi gwneud cynnydd digonol wrth sicrhau addysgu cryf a chyson ar draws yr ysgol. Yn ogystal, nid yw'r arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar feysydd pwysig megis sicrhau datblygiad cydlynol ym medrau disgyblion.

Mae'r cyfathrebu rhwng yr ysgol a rhieni yn glir ac amserol. Mae staff yn rhannu gwybodaeth am weithgarwch a chynnydd disgyblion trwy amryw o gyfryngau pwrpasol. Maent yn gwneud defnydd llwyddiannus o'r gymuned leol i gyfoethogi'r profiadau dysgu, er enghraifft trwy wahodd pobl o fusnesau lleol a chyn-ddisgyblion i rannu eu harbenigedd a chodi dyheadau'r disgyblion i'r dyfodol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  30/01/2025